# MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

***Adran 143 - Diddymu'r Bwrdd a throsglwyddo swyddogaethau***

279. Mae'r adran hon yn nodi dechrau'r cyfnod pontio cyntaf.

280. Mae Bwrdd yr iaith Gymraeg yn cael ei ddiddymu ac mae ei swyddogaethau o dan adran 3 o Ddeddf 1993 yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiynydd. Gallai swyddogaethau'r Bwrdd o dan adran 3 o Ddeddf 1993 gael eu harfer gan Weinidogion Cymru yn lle eu trosglwyddo i'r Comisiynydd neu yn ychwanegol at eu trosglwyddo i'r Comisiynydd. Gallai hyn gael ei gyflawni drwy orchymyn a fyddai'n cael ei wneud o dan adran 154 o'r Mesur hwn.

281. Mae swyddogaethau'r Bwrdd a geir yn Rhan 2 o Ddeddf 1993 (cynlluniau iaith Gymraeg) yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiynydd.

282. Mae'r adan hon hefyd yn diddymu rhai o ddarpariaethau Deddf 1993.